**CYLCH MEITHRIN TREFEURIG**

**POLISI YR IAITH GYMRAEG**

**Cyflwyno, trosglwyddo a datblygu sgiliau llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg**

Bydd **Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol Cylch Meithrin Trefeurig** yn sicrhau ei bod yn deall ac yn gweithredu'r polisi hwn.

Bydd **Arweinydd Cylch Meithrin Trefeurig** yn sicrhau fod pob aelod o staff yn deall y polisi hwn.

Bydd **Cylch Meithrin Trefeurig** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod am y polisi hwn trwy gymryd y camau canlynol:

(Nodwch sut byddwch yn rhannu'r wybodaeth yma. e.e. Rhoi'r polisi ar wefan y Cylch Meithrin; rhoi'r polisi mewn llawlyfr i rieni / /gwarchodwyr / gofalwyr / awdurdod lleol; rhoi copi o'r polisi mewn cyntedd neu fan ble gall pobl ei weld; tynnu sylw rhieni, gofalwyr a gwarchodwyr at y polisi mewn nosweithiau / boreau i rieni. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.)

1 Rhoi'r polisi mewn cyntedd y cylch yn y ffeil poilisiau

2 Tynnu sylw rhieni a gofalwyr at bolisi mewn cyfarfod a nosweithiau rieni

3 Rhoi'r policy mewn llawlyfr rhieni

*(Rhaid sicrhau bod POB aelod o staff, gwirfoddolwyr, y pwyllgor rheoli gwirfoddol ac ymwelwyr rheolaidd (e.e. athrawon ymgynghorol) i'r Cylch Meithrin yn darllen ac yn dilyn y polisi hwn.)*

## CYLCH MEITHRINTREFEURIG

## WELSH LANGUAGE POLICY

**Introducing, transferring and developing Welsh language literacy and communication skills**

The **Voluntary Management Committee of Cylch Meithrin Trefeurig** will ensure that every member of staff understands and implements this policy.

The **Leader of Cylch Meithrin Trefeurig** will ensure that every member of staff understands and implements this policy.

**Cylch Meithrin Trefeurig** will ensure that parents and carers are aware of this policy by taking the following steps:

(Note how you will share this information. e.g. Policy will be placed on the Cylch Meithrin website; Policy to be given in a handbook to parents / guardians / carers / local authority; place policy in the entrance or where people are able to view it; draw the attention of parents, guardians and carers to the policy during parents evenings / mornings. This list is not exhaustive.)

1 The policy will be placed in the entrance to the cylch in the policy file

2 We will draw the parents and carers attention to the policy during meetings and parents evenings

3 The policy will be given in the parents hand book

*(You must ensure that EVERY member of staff, volunteer, the Voluntary Management Committee and regular visitors to the Cylch Meithrin (e.g. advisory teachers) read and adhere to this policy.)*

# CYLCH MEITHRIN TREFEURIG

## POLISI YR IAITH GYMRAEG

**Cyflwyno, trosglwyddo a datblygu sgiliau llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg**

**Mae derbyn a gweithredu'r polisi hwn sef Polisi Yr Iaith Gymraeg yn amod o fod yn aelod o Mudiad Meithrin. Ni chaniateir newid unrhyw elfen o'r polisi hwn. Os yw Cylch yn profi anhawster gyda chynnal safon angenrheidiol y Gymraeg o fewn ei weithgareddau, rhaid cysylltu gyda'ch Swyddog Cefnogi lleol am gyngor a chefnogaeth bellach.**

### Cefndir

Nod Mudiad Meithrin ers ei sefydlu yn 1971 yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae **Cylch Meithrin Trefeurig** yn credu bod yr iaith Gymraeg o fantais i blant.

Nod y Cylch Meithrin yw cefnogi pob plentyn i feithrin gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg. Mae'r Cylch Meithrin yn cynnig i bob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn ei ardal y cyfle i gael profiadau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. O ganlyniad, trefnir cymaint o oriau cyswllt â'r iaith Gymraeg ag sydd yn bosib, gan ddefnyddio'r Gymraeg yn unig ar gyfer gweithgareddau sesiynau'r lleoliad. Mae'r Cylch Meithrin yn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn manteisio ar gyfleoedd i gyd-weithio

gyda'r Ysgol Gynradd Gymraeg lleol a gyda phartneriaid eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.

**Hawliau Plant**

Mae sicrhau amgylchedd sydd yn galluogi plant i feithrin sgiliau iaith Gymraeg yn rhan o sicrhau fod y Cylch Meithrin yn parchu hawliau plant sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, ac yn benodol:

**CYLCH MEITHRIN TREFEURIG**

**WELSH LANGUAGE POLICY**

**Introducing, transferring and developing Welsh language literacy and communication skills**

**Being a member of Mudiad Meithrin is dependent upon acceptance and implementation of this Welsh Language Policy. You are not permitted to change any element of this policy. If the Cylch experiences difficulty in maintaining the necessary standard of Welsh within the Cylch's activities, you should contact your Support Officer for further advice and support.**

## Background

Since Mudiad Meithrin was established in 1971, its aim has been to offer every pre-school child in Wales the opportunity to have early years' experiences and services through the medium of Welsh. **Cylch Meithrin Trefeurig** believes that acquiring the Welsh language is of benefit to children.

The Cylch Meithrin aims to support each child as they develop their information and skills in Welsh. The Cylch offers every pre-school child in its catchment area the opportunity to have early years' experiences through the medium of the Welsh language. The Cylch organises as many contact hours as possible with the Welsh language and uses only Welsh in its activities. The Cylch Meithrin promotes Welsh-medium education, and takes advantage of opportunities to work with the local Welsh-medium Primary School and other partners who promote the Welsh language.

## Children's Rights

Ensuring an environment where children are able to develop Welsh language skills is part of ensuring that the Cylch Meithrin respects the rights of children under the United Nations Convention on the Rights of the Child, specifically:

Erthygl 30: Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, boed y rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.

## COD YMARFER

Bydd y **Person Cofrestredig / Unigolyn Cyfrifol / Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol** yn sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu ac yn dirprwyo'r cyfrifoldeb i'r **Arweinydd** am weithredu'r polisi o ddydd i ddydd. Rhaid i bob aelod o staff gadw at, a hwyluso gweithredu'r polisi.

Bydd yr **Arweinydd** yn sicrhau bod pob aelod o staff, rhieni / gofalwyr, gwirfoddolwyr a myfyrwyr ar leoliad gwaith yn ymwybodol o'r polisi ac o'u cyfrifoldebau i weithredu'r polisi. Bydd yr **Arweinydd** yn sicrhau hefyd fod pob aelod o staff newydd yn derbyn copi o'r polisi yn ystod yr hyfforddiant anwytho, a bod copi o'r polisi yn cael ei dderbyn gan bob aelod newydd i Bwyllgor Rheoli Gwirfoddol y Cylch Meithrin yn ystod y cyfarfod anwytho.

## Cyflwyno'r Iaith Gymraeg

Dim ond y Gymraeg sy'n cael ei ddefnyddio yn ystod sesiynau'r Cylch Meithrin.

I blant sydd yn dod o gartrefi ble siaredir y Gymraeg, bydd hyn yn golygu parhau i feithrin a datblygu'r sgiliau Cymraeg sydd ganddynt eisoes. Bydd y Cylch Meithrin yn cefnogi'r plant i adeiladu ar eu sgiliau Cymraeg drwy'r profiadau dysgu a ddarperir yn y lleoliad.

I'r plant sydd yn mynychu'r Cylch Meithrin, ac yn dod o gartrefi di-Gymraeg, defnyddir y **Dull Trochi Iaith**[1] i gyflwyno'r Gymraeg iddynt. Ffordd arbennig o gyflwyno iaith newydd yw'r Dull Trochi Iaith, sydd yn adleisio'r ffordd mae unrhyw fabi'n dysgu iaith am y tro cyntaf. Mae'n cyfeirio at y ffaith bod y plant yn derbyn eu haddysg neu eu gofal mewn iaith sydd yn wahanol i iaith eu cartref.

---

[1] Ceir mwy o wybodaeth am y **Dull Trochi Iaith** yn y *Llyfr Mawr Piws: Atodiad 81*. Mae'r cwrs ar-lein am ddim *Beth yw'r Dull Trochi?* Ar gael yma: https://intranet.meithrin.co.uk/cyrsiau-ar-lein/ . Cysylltwch gyda'ch Swyddog Cefnogi lleol os oes diddordeb gyda chi mewn mynychu cwrs wyneb-yn-wyneb.

Article 30: Children have a right to learn and use the language and customs of their families, whether these are shared by the majority of people in the country or not.

## CODE OF PRACTICE

The **Registered Person / Responsible Individual / Voluntary Management Committee** will ensure that the policy is implemented, and will delegate responsibility for day-to-day implementation to the **Leader**. Each member of staff must keep to and facilitate the implementation of the policy.

The **Leader** will ensure that each member of staff, parent / carer, volunteer and work experience student is aware of the policy and their responsibility to implement it. The **Leader** will ensure that each new staff member receives a copy of the policy during their induction training and that a copy is given to each new member of the Cylch Meithrin's Voluntary Management Committee during the induction meeting.

## Introducing the Welsh Language

Welsh is the only language used during Cylch Meithrin sessions.

For children who come from Welsh-speaking homes, this will mean continuing to nurture and develop the Welsh language skills they already possess. The Cylch Meithrin will support the children in building on their Welsh-language skills by providing learning experiences within the setting.

Children who attend the Cylch Meithrin and come from non-Welsh speaking homes will be introduced to the Welsh language through the **Language Immersion Method**[2]. The Language Immersion Method is a new way to introduce a language, mirroring the way a baby learns language for the first time. It refers to the fact that children receive their education or care in a different language to that which is spoken at home.

---

[2] More information is available about the Language Immersion Method in the Llyfr Mawr Piws: Appendix 81. There is a free online course 'What is the Immersion Scheme' available here: https://intranet.meithrin.co.uk/cyrsiau-ar-lein/. Contact your local Support Officer if you are interested in attending a face-to-face course.

Mewn Cylch Meithrin, golyga hyn mae'r Gymraeg yn unig sy'n cael ei defnyddio yn y lleoliad gydag ac o amgylch y plant. Golyga hyn fod holl weithgareddau sesiynau'r ddarpariaeth yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Drwy wneud hyn, mae'r plant yn cael eu hamgylchynu gan yr iaith drochi (y Gymraeg) yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r Dull Trochi Iaith yn ffordd o gefnogi plant sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg i gaffael neu ddysgu'r Gymraeg mewn ffordd sydd yn adlewyrchu'r ffordd maent yn dysgu iaith y cartref...wrth iddynt glywed a defnyddio'r Gymraeg sy'n cyd-fynd gyda'r profiadau maent yn eu cael yn y lleoliad.

Mae cyfrifoldeb gan Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol y Cylch Meithrin i sicrhau bod bob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn ei ardal yn cael y cyfle i gael profiadau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Er mwyn hwyluso gweithredu'r polisi hwn, nodwyd disgwyliadau penodol isod.

**Y Cylch Meithrin**

Bydd y Cylch Meithrin yn:

- cynllunio ar gyfer cynnydd yn sgiliau iaith Gymraeg pob plentyn.
- cynllunio i ddarparu ystod o weithgareddau, ardaloedd chwarae a themâu i annog cynnydd sgiliau iaith Gymraeg pob plentyn.
- cynllunio i ddarparu ystod o weithgareddau er mwyn diwallu anghenion profiadau, gwybodaeth a sgiliau'r Cwricwlwm Addysg berthnasol.
- sicrhau amgylchedd iaith Gymraeg gyfoethog yn y lleoliad.
- sicrhau amgylchedd sy'n cyflwyno diwylliant Cymreig yn y lleoliad.
- manteisio ar gyfleoedd i fynychu digwyddiadau Cymraeg lleol fel grŵp e.e. sioe Cyw, Gŵyl Dewin a Doti.
- cysylltu gyda'r Swyddog Cefnogi lleol pan adnabyddir angen am gefnogaeth ieithyddol yn y lleoliad.

In the Cylch Meithrin this means that Welsh is the only language used in the setting and around the children. This means that all the session's provision and activity is delivered solely in Welsh. In doing this, the children are immersed in the target language throughout their time at the setting. The Language Immersion Scheme is a way of supporting children from non-Welsh speaking homes to acquire language in a way which mirrors the way they learn the language of the home... as they hear and use language which corresponds with the experiences offered by the setting.

It is the responsibility of the Cylch Meithrin's Voluntary Management Committee to ensure that each early years child in their vicinity is given the opportunity to have experiences through the medium of the Welsh language. To facilitate the implementation of this policy, we have noted specific expectations below.

**The Cylch Meithrin**

The Cylch Meithrin will:

- plan for the progress of each child's Welsh language skills.
- plan to provide a variety of activities, play areas and themes in order to progress each child's Welsh language skills.
- Plan to provide a variety of activities in order to satisfy the needs, experiences, information and skills of the relevant Education Curriculum.
- Ensure the setting offers a rich Welsh-language atmosphere.
- Ensure the setting introduces local Welsh culture
- Take advantage of opportunities to attend local Welsh-language events e.g. Sioe Cyw, Gŵyl Dewin a Doti.
- Contact the local Support Officer when a need for linguistic support has been identified.

**Staff y Cylch Meithrin**

Bydd staff y Cylch Meithrin yn:

- meddu ar rugl der digonol yn y Gymraeg i ymgymryd â dyletswyddau'r swydd.
- dilyn methodoleg y Dull Trochi Iaith.
- siarad Cymraeg drwy'r amser gyda'r plant yn y lleoliad.
- siarad Cymraeg drwy'r amser gyda'r staff eraill yn y lleoliad.
- defnyddio brawddegau llawn wrth siarad gyda staff a phlant.
- sicrhau bod eu hynganiad yn glir ac yn gywir ar bob adeg. Bydd hyn yn cefnogi datblygiad sgiliau iaith Gymraeg y plant.
- ail-adrodd geirfa a brawddegau yn gyson er mwyn modelu patrymau iaith.
- cynorthwyo'r plant i ddeall ystyr geiriau a brawddegau drwy ystumio a defnyddio propiau priodol.
- parchu hawl y plentyn i ddefnyddio ei dewis iaith.

**Gweithgareddau'r Cylch Meithrin**

Bydd y Cylch Meithrin yn:

- ymrwymo i weithredu holl elfennau Polisi yr Iaith Gymraeg yn y lleoliad.
- ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd sydd yn gysylltiedig â'r Cylch Meithrin ond bydd yn sicrhau na fydd unrhyw riant / gofalwr / gwarchodwr na phlentyn yn cael ei adael allan o unrhyw weithgaredd ar sail ei gefndir ieithyddol.
- ymrwymo i ddefnyddio'r Dull Trochi Iaith i gyflwyno a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y plant.
- sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau papur, digidol a sain cyfrwng Cymraeg ar gael i ymestyn sgiliau iaith Gymraeg y plant.
- defnyddio ystod o weithgareddau, ardaloedd chwarae a themâu'r lleoliad i gefnogi datblygiad sgiliau iaith Gymraeg y plant fel rhan naturiol o'r gweithgareddau hyn.

**Cylch Meithrin Staff**

The Cylch Meithrin staff will:

- possess sufficient fluency in Welsh to undertake the duties of their role.
- follow the methodology of the Language Immersion Scheme.
- speak Welsh at all times with children in the setting.
- speak Welsh at all times with other staff.
- use full sentences when speaking with staff and children.
- ensure that their pronunciation is at all times clear and correct. This will support the development of the children's Welsh language skills.
- consistently repeat words and sentences in order to demonstrate language patterns.
- assist children in understanding the meaning of words and sentences through use of gestures and appropriate props.
- respect the right of the child to use their chosen language.

**Cylch Meithrin Activities**

The Cylch Meithrin will:

- commit to implementing all elements of the Welsh Language Policy within the setting.
- commit to using Welsh in every activity associated with the Cylch Meithrin, but ensure that no parent / carer / guardian or child is excluded from any activity due to their linguistic background.
- commit to using the Language Immersion Method to introduce the Welsh Language to children and develop their skills.
- ensure that there is a wide range of Welsh-language paper, digital and audial resources available to extend the children's Welsh language skills.
- use a wide range of activities, play areas and themes in the setting to support the development of the children's Welsh language skills as a natural part of these activities.

- sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i gaffael y Gymraeg wrth chwarae a rhyngweithio gydag oedolion a phlant eraill yn y lleoliad.
- defnyddio ystod o ddulliau a thechnegau, weithgareddau, ardaloedd chwarae a themâu'r lleoliad i ddatblygu sgiliau iaith y plant drwy gwricwlwm cyfannol sy'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd a strwythuredig, ar y cyd gyda rhaglen iaith benodol lle bo hynny'n berthnasol.
- cynnig cyfleoedd i feithrin sgiliau iaith Gymraeg drwy gyflwyno caneuon a rhigymau a thrwy wrando ar straeon Cymraeg yn y lleoliad.
- manteisio ar adnoddau pwrpasol gan Mudiad Meithrin i gyflwyno a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y plant yn y lleoliad e.e. adnoddau Dewin a Doti, cynllun *Croesi'r Bont* lle y'i darperir.
- manteisio ar a gwahodd ymwelwyr a siaradwyr gwadd sydd yn medru'r Gymraeg i gyfoethogi themâu a phrofiadau dysgu'r lleoliad lle bo hynny'n ymarferol bosib.
- sicrhau bod arddangosfeydd y Cylch Meithrin wedi eu labeli yn Gymraeg yn unig.

**<u>Cyd-weithio gyda rhieni / gofalwyr / gwarchodwyr</u>**

Bydd y Cylch Meithrin yn:

- cynnig cefnogaeth briodol i rieni / gofalwyr / gwarchodwyr di-Gymraeg, er mwyn eu galluogi i gymryd rhan lawn ym mywyd y Cylch Meithrin ac i gefnogi addysg eu plant.
- sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig (e.e. llythyr, e-bost, poster) sy'n cael ei gynhyrchu yn enw'r Cylch Meithrin yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- sicrhau bod unrhyw wybodaeth ddigidol sy'n cael ei gynhyrchu yn enw'r Cylch Meithrin yn cael ei gyflwyno'n Gymraeg neu'n ddwyieithog (e.e. postiadau Cyfryngau Cymdeithasol, gwefan).
- parchu hawl y rhieni / gofalwyr / gwarchodwyr i ddefnyddio eu dewis iaith.
- hyrwyddo cynlluniau i rieni / gofalwyr / gwarchodwyr fel *Cymraeg i Blant* a *Clwb Cwtsh* ayb.

- ensure that the children have opportunities to acquire the Welsh language through play and by interacting with adults and other children in the setting.
- use a range of methods and techniques, activities, play areas and themes to develop the children’s language skills through a holistic curriculum which includes opportunity for free and structured play, in conjunction with a specific language programme where appropriate.
- create opportunities to nurture Welsh language skills by introducing songs and nursery rhymes and by listening to stories in Welsh within the setting.
- make use of appropriate Mudiad Meithrin resources to introduce the Welsh language and develop the Welsh language skills of children in the setting, e.g. Dewin and Doti Resources, the *Croesi’r Bont* scheme where it is offered.
- take advantage of Welsh-speaking visitors and guest speakers by inviting them into the Cylch to enrich themes and learning experiences, wherever practically possible.
- ensure that the Cylch Meithrin displays are only labelled in Welsh.

**Working with parents / carers / guardians**

The Cylch Meithrin will:

• offer appropriate support to non-Welsh speaking parents / carers / guardians to enable them to participate fully in the life of the Cylch Meithrin and to support their children's education.

• ensure that any written material (e.g. letter, e-mail, poster) produced in the name of the Cylch Meithrin is provided in Welsh or bilingually.

• ensure that any digital information produced in the name of the Cylch Meithrin is delivered in Welsh or bilingually (e.g. Social Media posts, website).

• respect the right of parents / carers / guardians to use their preferred language.

• promote schemes for parents / carers / guardians such as *Cymraeg for Kids* and *Clwb Cwtsh* etc.

**Hysbysebu Swyddi**

Bydd y Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol yn sicrhau bod pob person a benodir i swydd yn y lleoliad yn ymwybodol o Bolisi Yr Iaith Gymraeg, yn ei ddeall ac yn ymrwymo iddo.

Bydd y Cylch Meithrin yn:

- sicrhau bod hysbysebion am swyddi yn esbonio ymrwymiad y cylch i'r iaith Gymraeg. Gall hyn olygu gosod nodyn yn debyg i'r canlynol fel rhan o'r hysbyseb: "Yn falch o gefnogi'r Gymraeg yn Penrhyncoch, Aberystwyth" / #Cymraeg / #MeithrinMiliwn
- sicrhau bod hysbysebion am swyddi yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd. Gall hyn gynnwys nodyn i ddangos y derbynnir ceisiadau gan ddysgwyr yn ogystal â siaradwyr rhugl.
- sicrhau bod gan bob aelod o staff a benodir rhuglder digonol yn y Gymraeg i ymgymryd â dyletswyddau'r swydd. Mewn achosion ble nad yw'n bosib i'r Cylch Meithrin i benodi unigolyn sydd eisoes yn meddu ar y sgiliau Cymraeg angenrheidiol, bydd yn ofynnol i unrhyw aelod newydd o staff a benodir sydd angen gloywi ei h/iaith ymgymryd â chwrs Cymraeg perthnasol. Ble penderfynir penodi unigolyn sydd angen datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg i ymgymryd â dyletswyddau'r swydd gan nad oes unigolyn addas sydd eisoes yn meddu ar y sgiliau Cymraeg angenrheidiol, ychwanegir cymal(au) perthnasol i'w cytundeb gwaith. Mae'r *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol* wedi datblygu cyrsiau pwrpasol i'r gweithlu blynyddoedd cynnar.
- ymrwymo i geisio cynnal pob cyfweliad swydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Ble nad yw hyn yn bosib (e.e. ble nad yw (holl) aelodau'r Panel Cyfweld yn medru'r Gymraeg), bydd y Cylch Meithrin yn sicrhau bod o leiaf un cwestiwn ym mhob cyfweliad staff yn cael ei ofyn a'i hateb yn y Gymraeg. Gall hyn olygu y bydd y Cylch Meithrin yn gwahodd y Swyddog Cefnogi lleol i'r cyfweliadau er mwyn holi'r cwestiwn, ac adrodd yn ôl i'r Panel Cyfweld ar ei chanfyddiad o sgiliau Cymraeg yr unigolyn. Gall hefyd fod yn bosib trefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer medru cynnal y cyfweliadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Advertising Jobs**

The Voluntary Management Committee will ensure that every person appointed to a post in the setting is aware of, understands and will commit to the Welsh Language Policy.

The Cylch Meithrin will:

- ensure that job advertisements explain the Cylch's commitment to the Welsh language. This may involve placing a note similar to the following as part of the advertisement: “Pleased to support the Welsh language in Penrhyncoch , Aberysytwyth” #Cymraeg / #MeithrinMiliwn
- ensure that job advertisements note that Welsh language skills are essential for the post. This can include a note to state that applications are welcomed from learners as well as fluent speakers.
- ensure that all staff appointed have sufficient fluency in Welsh to undertake the duties of the post. In cases where it is not possible for the Cylch Meithrin to appoint an individual who already has the necessary Welsh language skills, any new member of staff appointed who needs to improve their language will be required to undertake a relevant Welsh course. Where it is decided to appoint an individual who needs to develop their Welsh language skills to undertake the duties of the post as there is no suitable person who already has the necessary Welsh language skills, a clause (s) relevant to their contract of employment will be added. The *National Centre for Learning Welsh* has developed bespoke courses for the early years workforce.
- undertake to conduct all job interviews through the medium of Welsh. Where this is not possible (e.g. where (all) members of the Interview Panel are not Welsh speaking), the Cylch Meithrin will ensure that at least one question in each staff interview is requested and answered in Welsh. This may mean that the Cylch Meithrin invites the local Support Officer to the interviews to ask the question, and to report back to the Interview Panel on its perception of the individual's Welsh language skills. It may also be possible to arrange simultaneous translation to be able to conduct the interviews through the medium of Welsh.

**Hyrwyddo Addysg Gymraeg**

Bydd y Cylch Meithrin yn:

- annog rhieni / gofalwyr / gwarchodwyr i barhau ag addysg Gymraeg eu plant.
- manteisio ar gyfleoedd i gyd-weithio gyda'r Ysgol(ion) Gynradd Gymraeg lleol.
- pontio'n effeithiol rhwng y Cylch Meithrin a'r Ysgol(ion) Gynradd Gymraeg lleol.
- rhannu manylion yr Ysgol(ion) Gynradd Gymraeg lleol gyda rhieni / gofalwyr / gwarchodwyr.
- rhannu taflenni a deunydd hyrwyddo addysg Gymraeg perthnasol gyda rhieni / gofalwyr / gwarchodwyr.

Ô.N. Mewn ardaloedd ble nad oes Ysgol Cyfrwng Cymraeg penodedig, ond bod yr ysgol(ion) lleol yn ysgolion 'dwy ffrwd', bydd rhaid i'r Cylch Meithrin drefnu cwrdd i drafod gyda'r Pennaeth(iaid). Bydd rhaid esbonio mai gyda'r ffrwd Gymraeg y bydd y Cylch Meithrin yn cyd-weithio, ac mai gyda staff y ffrwd Gymraeg y bydd y Cylch Meithrin yn cysylltu i drefnu ymweliadau pontio ac / neu weithgareddau ar y cyd. Gall y Cylch Meithrin gysylltu gyda'r Swyddog Cefnogi lleol i ofyn am gyngor, neu i ofyn iddynt gynorthwyo gyda'r trafodaethau gyda'r ysgol(ion) hyn.

**Y Gymraeg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae'r Cylch Meithrin yn ymrwymo i roi cefnogaeth briodol i bob plentyn yn y Cylch sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y Cylch Meithrin yn gweithredu yn unol a'r Deddf a Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (neu Anghenion Dysgu Ychwanegol) cyfredol ar gyfer Cymru a'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Cymraeg yw iaith y Cylch Meithrin, a bydd y Cylch yn cyd-weithio gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cefnogi'r plentyn i sicrhau darparu cefnogaeth bwrpasol a phriodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er hynny, cydnabyddir y Cylch Meithrin bod achosion ble mae gan blentyn anghenion dwys a chymhleth, a gall bod angen medru darparu cefnogaeth bwrpasol, ychwanegol i'r plentyn yn iaith y cartref. Ystyrir pob achos o'r fath yn unigol.

## Promoting Welsh-medium Education

The Cylch Meithrin will:

- encourage parents / carers / carers to continue their children's education through the medium of Welsh.
- take advantage of opportunities to work with the local Welsh-Medium Primary School (s).
- ensure effective transition between the Cylch Meithrin and the local Welsh-Medium Primary School (s).
- share details of the local Welsh-Medium Primary School (s) with parents / carers / guardians.
- share relevant Welsh-medium education leaflets and promotional material with parents / carers / guardians.

In areas where there is no designated Welsh-Medium School, but the local school (s) are 'dual stream' schools, the Cylch Meithrin will have to arrange to meet with the Headteacher (s). It will be necessary to explain that the Cylch Meithrin will co-operate with the Welsh stream, and that the Cylch Meithrin will liaise with the Welsh stream staff to arrange transition visits and / or joint activities. The Cylch Meithrin can contact the local Support Officer to seek advice, or to ask them to assist with discussions with these school (s).

## Welsh and Additional Learning Needs

The Cylch Meithrin is committed to providing appropriate support for every child in the Cylch who has Additional Learning Needs. The Cylch Meithrin will operate in accordance with the current Special Educational Needs (or Additional Learning Needs) Code of Practice for Wales and the Equality Act.

The Cylch Meithrin is Welsh speaking, and the Cylch will work with other agencies and professionals who support the child to ensure that appropriate support is provided through the medium of Welsh.

Pe bai achos yn codi, bydd y Cylch Meithrin yn trafod gyda'r rhieni / gofalwyr / gwarchodwyr, y gweithwyr proffesiynol perthnasol, a'r Swyddog Cefnogi lleol i gytuno'r ffordd orau o ddarparu'r gefnogaeth / ymyrraeth angenrheidiol i'r plentyn unigol. Noder nad yw'n bosib cynnal unrhyw weithgaredd / ymyrraeth nad sydd drwy gyfrwng y Gymraeg, ble disgwylir ei gynnal o fewn gweithgareddau arferol y Cylch Meithrin na gyda phlant eraill sy'n mynychu'r Cylch, gan fydd hyn yn amharu ar hawl y plant eraill i dderbyn addysg a gofal cyfrwng Cymraeg yn y lleoliad.

Bydd y Cylch Meithrin a Mudiad Meithrin yn parhau i weithredu ac i eiriol i sicrhau bod cefnogaeth briodol a phwrpasol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i bob plentyn yng Nghymru.

**Polisïau Cysylltiedig**

Polisi Staffio

**Dolenni Defnyddiol**

Comisiynydd y Gymraeg:
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Pages/Croeso.aspx

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: https://dysgucymraeg.cymru/

Mentrau Iaith Cymru: http://www.mentrauiaith.cymru/

Merched y Wawr: http://merchedywawr.cymru/

Yr Urdd: https://www.urdd.cymru/cy/

However, the Cylch Meithrin recognizes that there are cases where a child has severe and complex needs, and it may be necessary to provide additional, appropriate support for the child in the language of their home. All such cases are considered individually.

If a case arises, the Cylch Meithrin will discuss with the parents / carers / guardians, the relevant professionals, and the local Support Officer to agree the best way to provide the child with the necessary support / intervention. Please note that it is not possible to conduct any activity / intervention that is not through the medium of Welsh when it would be part of the usual activity of the Cylch Meithrin or involve other children attending the Cylch, as this will affect the other children's right to receive Welsh medium education and care at the setting.

The Cylch Meithrin and Mudiad Meithrin will continue to operate and advocate to ensure that appropriate and appropriate support for Additional Learning Needs is available through the medium of Welsh for every child in Wales.

## Related Policies

Staffing Policy

## Useful Links

The Welsh Language Commissioner:
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Pages/Croeso.aspx

The National Centre for Learning Welsh: https://dysgucymraeg.cymru/

Mentrau Iaith Cymru: http://www.mentrauiaith.cymru/

Merched y Wawr: http://merchedywawr.cymru/

Yr Urdd: https://www.urdd.cymru/en/